

**Cofnodion cyfarfod misol rhithwir Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd**  
**Rhagfyr 16ddeg 2020 am 7.30 o'r gloch.**  
**Minutes of Llanddona Community Council virtual monthly meeting held on 16th**  
**December 2020 7.30pm**

**Presennol/Present** - Cadeirydd/*Chairperson* Barbara Williams, Rhian Hughes, Mark Griffiths, Myrddin Roberts, Hanna Elin Baguley, Geraint Parry (Clerc/*Clerk*)  
Cynghorwyr Sir/*County Councillors* – Alun Roberts a Carwyn Jones

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - Cyng. Maldwyn Williams, Cyng. Martin Hennessey
2. **Cofnodion / Minutes** - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed o Tachwedd fel rhai cywir gan Cyng. Rhian Hughes, eiliwyd gan Cyng. M Roberts / *Minutes of the previous meeting held on 18<sup>th</sup> November were accepted as accurate by Clr. Rhian Hughes, seconded by Clr. M Roberts.*
3. **Datgan Diddordeb/Declaration of interest**
  - 3.1 Cyng. Hanna Baguley yn datgan diddordeb sydd yn rhagfarnol ar eitem 8 oherwydd ei bod yn aelod o'r grŵp lliwio Cwlwm Seiriol / *Clr. Hanna Baguley declared an interest that is prejudicial on item 8 because she is a member of the Cwlwm Seiriol steering group*
  - 3.2 Cyng. Rhian Hughes yn datgan diddordeb sydd yn rhagfarnol ar eitem 4.5 oherwydd ei bod yn aelod o Bwyllgor yr Hen Ysgol / *Clr. R Hughes declared an interest that is prejudicial on item 4.5 because she is a member of the committee of the Old School*
4. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
  - 4.1 Dywedodd Cyng. M Roberts fod y rhan fwyaf o'r gwaith cynnal a chadw llwybrau troed wedi'i wneud ac eithrio'r ddau lwybr ger y Bwlch, oherwydd maint y gordyfiant. Cyfrifoldeb y tiffeddiannwr yw torri hyn. Mae'r contractwr hefyd wedi agor y llwybr tuag at Tan y Gryddyn. Clerc i sefydlu perchnogaeth llwybr troed rhif 12. / *Clr. M Roberts reported that most of the footpath maintenance work has been carried out with the exception of the two paths by Bwlch, due to the amount of overgrowth. This is the responsibility of the landowner to cut this. The contractor has also opened the path towards Tan y Gryddyn. Clerk to establish the ownership of footpath number 12.*
  - 4.2 Ffordd ganol o Llanddona i Langoed - adroddodd Cyng. A Roberts fod yr Adran Briffyrdd yn ymwybodol o gyflwr y lleoedd pasio ar y ffordd hon a'u bod yn dilyn y mater gyda'r contractwr. / *Middle road from Llanddona to Langoed - Clr. A Roberts reported that the Highways Department are aware of the condition of the passing places on this road and are following this up with the contractor.*
  - 4.3 Traeth - Cyng. A Roberts i drafod hyn ymhellach gyda'r Adran Briffyrdd / *Clr. A Roberts agreed to discuss this further with the Highways Department.*
  - 4.4 Tyn Llan, hawddfrait - Clerc wedi dosbarthu'r dogfennau a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru gyda'r Cynghorwyr. Derbyniwyd darlun gan yr adeiladwr yn dangos cyfeiriad y bibell o Tyn Llan i'r brif garthffos. Er mwyn trafod ymhellach, trefnwyd ymweliad safle ar 19/12 am 9:30yb / *Tyn Llan, easement - Clerk has distributed the documentation received from OVW to the Councillors. A diagram has been received from the builder showing the direction of the pipe from Tyn Llan to the main sewer. In order to discuss further, a site visit has been arranged on 19/12 at 9:30am.*
  - 4.5 Dywedodd y Clerc fod ein cais am rodd i Bwyllgor yr Henoed gan DU Construction yn llwyddiannus. Dywedodd Cyng. R Hughes fod y prosiect Nadolig hefyd yn llwyddiannus / *Clerk reported that our application for a donation for the Elderly Committee from DU Construction was successful. Clr. R Hughes stated that the Christmas project was also successful.*

- 4.6 Mae'r digwyddiad tipio anghyfreithlon ar Dir Comin y Rhos wedi cael ei glirio gan y Cyngor Sir / *The Fly tipping incident on Common Land of the Rhos has been cleared by the County Council.*

**5. Adrodd gan y Cynghorwyr Sir / Report by County Councillors  
Cynghorydd / Councillor Alun Roberts**

- 5.1 Gordyfiant dros y ffordd ger Minffordd a Tan y Bryn - Mae'r Cyngor Sir wedi anfon llawer o lythyrau at ddeiliaid tai / *Overgrowth over the road by Minffordd a Tan y Bryn - The County Council has sent out many letters to householders*

- 5.2 Covid - Cymru i gyhoeddi yfory gynnydd o 11,000 o achosion oherwydd canlyniad gwaith gan Labordy Goleudy. Mae data Ynys Môn yn sefydlog / *Covid - Wales to announce tomorrow an increase of 11,000 cases due to the result of work by the Lighthouse Laboratory. Anglesey data is stable.*

**Cynghorydd / Councillor Carwyn Jones**

- 5.3 Mae Cynghorydd Lewis Davies wedi penderfynu ymddeol fel Cynghorydd yn Ward Seiriol ar 31/12/20 / *Councillor Lewis Davies has decided to retire as a Councillor in the Seiriol Ward on the 31/12/20.*

**6. Adrodd Maes Chwarae Plant / Children's Play Area Report**

- 6.1 Trafod y cyfle am grant i gynyddu'r cyfleoedd chwarae a'r gweithgareddau corfforol i blant. Penderfynwyd i Cyng. R Hughes i drafod ymhellach gyda Pwyllgor Hen Ysgol / *Discussed the opportunity for a grant to increase the playing opportunities and physical activities for children. It was resolved for Clr. R Hughes to discuss further with the Old School Committee.*

**7. Cae Chwarae Plant / Children's Playing Field**

- 7.1 Er mwyn arolygu trigolion lleol gydag awgrymiadau, rhoddodd y Clerc neges ar y cyfryngau cymdeithasol, lle mae nifer fawr o syniadau da lle y'u cyflwyno. Awgrymwyd, er mwyn sicrhau bod mwy o breswylwyr yn cael cyfle i gyfrannu, y cytunwyd i ddefnyddio dulliau cyfathrebu eraill. Argymhellodd Cynghorydd fod yn rhaid gwirio gweithredoedd y Cae Chwarae / *In order to survey local residents with suggestions, the Clerk placed a message on social media, where a great number of good ideas were put forward. It was suggested that in order to ensure that more residents have an opportunity to input, it was agreed to use other communication methods. A Councillor recommended that the deeds of the Playing Field must be checked.*

**8. Diweddariad / Update - Menter Môn**

Delyth Phillips - Swyddog Prosiect yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect - esbonio'r sefyllfa bresennol o ran Cynllun Rheoli'r Warchodfa Natur a pa waith a digwyddiadau sydd wedi'i wneud hyd yma, fel symud blodau gwyllt, torri'r prysgwydd, arolwg llygod a chrefftau. Hefyd, wedi bod yn edrych ar glymog Japan, Jac y Neidiwr ac ymylon ffyrdd. Pwysleisiwyd bod cyfle i fwy o bobl gymryd rhan yn y gwaith.

Esboniwyd bydd cyflwyniad y mis nesaf ynghylch pori'r tir comin. Awgrymodd Cynghorydd y gellid clirio'r ffynnon gyfagos ym Mryn Ffynnon fel rhan o'r prosiect. Eglurodd Delyth ymhellach y trefniant cyd weithio sydd â Plantlife Cymru.

Gofynnodd Cynghorydd a oedd cost o'r ffensio a'r pori ar gael? Esboniwyd y gellir gofyn am hyn yn ein cyfarfod nesaf. Mynegwyd pryder ynghylch faint o goed Helyg sydd ar y comin a'r angen am reolaeth.

Mae cynllun ar waith hefyd i greu taflen gerdded o amgylch y Pentref, lle awgrymwyd y gellid creu Is-Pwyllgor i ofalu am faterion o'r fath. Awgrymwyd hefyd y gellid creu grŵp arall i reoli'r tir comin.

*Delyth Phillips Project Officer was in attendance to update on the project - explained the current situation regarding the Nature Reserve Management Plan and what work*

and events has been carried to date, such as moving wild flowers, cutting the scrub, mice survey and crafts. Also, been looking at the Japanese knotweed, Himalayan Balsam and road verges. It was emphasised that there was an opportunity for more people to become involved in the work. A Councillor suggested that the nearby well at Bryn Ffynnon could be cleared. Delyth further explained the joint working arrangement with Plantlife Wales.

It was explained that a presentation will be given next month regarding the grazing of the common land. A Councillor asked if a cost of the fencing and grazing was available? It was explained that this can be requested at our next meeting. Concern was raised regarding the amount of Willow trees on the common land and it was emphasised the need for control.

Delyth suggested a project to create a sculptures out of willow that could be displayed outside the Old School and Display Boards. It was stated that a planning application would be required this.

A plan is also in place to create a walking leaflet around the Village, where it was suggested that a sub-committee could be created to look after such matters. It was also suggested that a further group could be created to manage the common land.

## **9. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

9.1 FPL/2020/221 - Fferm Wern, Llanddona - cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i 3 uned gwyliau - dim gwrthwynebiad, ond maent yn pryderu am y cynnydd mewn traffig bydd yn ddefnyddio'r gyffordd brysur / *Full application for the conversion of outbuildings into 3 holiday units - no objection, but are concerned about the increase in traffic using the busy junction.*

### **Gwybodaeth / Information**

9.2 FPL/2020/203 – Tylluan Wen - Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i 2 Llety gwyliau - wedi ei dynnu ôl / *Full application for conversion of an outbuilding into 2 Holiday units – has been withdrawn.*

9.3 MAO/2020/27 – Troed y Rhiw, Llanddona - mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan caniatâd cynllunio FPL/2019/215 er mwyn codi nifer paneli haul – wedi ei caniatáu / *Minor amendments to scheme previously approved under planning permission VAR/2020/61 so as to increase number of solar panels - has been granted.*

9.4 FPL/2020/211 – Mynydd Crafoed, Llanddona - Cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir – wedi ei caniatáu / *Full application for the erection of a dwelling – has been granted.*

9.5 VAR/2020/61 - Pen y Gorllewin, Llanddona - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (07)(Ni ddylai ffin y briffordd fod yn uwch nag 1m o fewn 2m i'r ffin) o ganiatâd cynllunio rhif FPL/2019/215 (Cais llawn ar gyfer codi annedd gyda balconi a garej ddwbl ar wahân ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau, creu pwll draenio cynaliadwy ynghyd â gwaith tirlunio cysylltiedig) er mwyn galluogi cadw gwrychoedd sefydledig presennol ar dir - wedi ei caniatáu. Eglurodd Cyng.C Jones yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r gŵyn a gyflwynwyd mewn perthynas ag aliniad yr annedd arfaethedig. / *Application under Section 73 for the variation of condition (07)(Highway boundary to be no higher than 1m within 2m of boundary) of planning permission reference FPL/2019/215 (Full application for erection of a dwelling with balcony and detached double garage together with the formation of a new vehicular access, sustainable drainage pond and associated landscaping) in order that existing established hedgerows may be retained on land – has been granted. Cllr. C Jones explained the circumstances relating to the complaint that was submitted in relation to the alignment of the proposed dwelling.*

## **10. Cyfrifon / Accounts**

10.1 Bancio ar-lein – disgwyl cadarnhad gan y Banc / *On-Line Banking – awaiting confirmation from the bank.*

10.2 **Anfonebau i'w talu / Invoices for payment:-**  
Cyflog y Clerc / *Clerk salary - £424.21*

HMRC - £91.60

J Roberts cynnal a chadw llwybrau / *Footpath maintenance - £770.00*

Rhoddd - Pwyllgor yr Henoed / *Donation - Elderly Committee - £1,000*

### 10.3 **Derbyniadau / Receipts**

DU Construction - £1,000

Wayleave - £12.60

## 11. **Budget 2021/22**

11.1 Eglurodd y Clerc yr angen i drafod y gyllideb er mwyn paratoi ar gyfer pennu'r praesept 2021 a lwfans Cynghorwyr. Trefnwyd i drafod ymhellach yn ein cyfarfod nesaf / *The Clerk explained the need to discuss the budget in preparation for setting the 2021 precept and Councillors allowance. It was agreed to discuss further at our next meeting.*

## 12. **Gohebiaeth/Correspondence**

- Planning Aid Wales - hyfforddiant / *training*
- Un Llais Cymru - hyfforddiant Rhagfyr / *One Voice Wales - December training*
- Cyngor Sir - gyfle grant / *Anglesey Council - grant opportunity*
- Cyngor Sir - ymholiad Strategaeth Tai / *Anglesey Council - Housing Strategy questionnaire*
- Hawddfraint / *Easement - Tyn Llan*
- Cyngor Sir - rhaglen pwyllgor gwaith / *executive work programme*
- Cyngor Sir - gynlluniau Porthladd Caergybi / *Holyhead Port contingency plans*
- Menter Môn - arolwg nythod llygod / *mice nest survey*
- Llywodraeth Cymru - Cynllun Datblygu Strategol Cynllunio Gwlad a Thref 20/01/21 / *Town & Country Planning Strategic Development Plan 20/01/21*

## 13. **UFA/AOB**

13.1 Mae'r Clerc wedi adrodd y cwlfertau wedi'u blocio ger Penhwnllys Bach a ger Comin y Rhos / *Clerk has reported the blocked culverts by Penhwnllys Bach and by Comin y Rhos.*

13.2 Dywedodd Cynghorydd fod hen fan a oedd wedi'i barcio ar dir comin ger Pen Gorffwysfa wedi'i symud, gan adael lawer o sbwriel ar ôl / *A Councillor reported that an old van that was parked on common land near Pen Gorffwysfa has been removed, leaving behind a lot of rubbish.*

13.3 Awgrymodd Cynghorydd y dylid newid y gyffordd "T" wrth Ffordd Deg fel y gallai traffig o Lansadwrn lifo'n uniongyrchol i Landdona drwy symud yr arwydd i ben y lôn o gyfeiriad Wern yr Wylan / *A Councillor suggested that the "T" junction by Ffordd Deg should be changed so that traffic from Llansadwrn could flow directly into Landdona by moving the sign to the top of the lane from Wern y Wylan direction.*

## 14. **Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 9:50. Cyfarfod nesaf ar 20/01/21 am 7:30 /*There was no further business to discuss. Meeting ended 9:50pm. Next meeting to be held on 20/01/21 at 7:30pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad